

CYNGOR TREF Y BALA TOWN COUNCIL

Swyddfa'r Cyngor, Yr Henblas, Stryd Fawr, Y Bala, Gwynedd LL23 7AE

Ffôn:Tel: 07896964120

cyngorybala@outlook.com

Cofnodion Cyngor Tref Y Bala

7/9/2017

Presennol: Y Maer Dorothi Evans, Rhys Evans, Eluned Jones, Ivora Jones, Tony Parry, Alun Price, Edith Roberts, John Caradog Williams, Lis Puw (*Clerc*).

Ymddiheuriadau: Sharon Evans, Dilys Evans, Eifion Roberts, Carol Rowlands, Dilwyn Morgan (*Cynghorydd Gwynedd*)

- 1. Sylwadau'r Maer:** Wrth groesawu pawb cyfeiriodd Y Maer at y prysurdeb a fu yn y dref dros yr haf ac at y gwahanol digwyddiadau y cafodd y fraint o'u mynychu.
- 2. Cyhoedd:** Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.
- 3. Buddiant:** Nid oedd datganiadau buddiant.
- 4. Cofnodion:** Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod 6/7/17.
- 5. Materion y Clerc:** Cofnod Rhif 5 – Nid fu cyfarfod gyda'r Heddlu i drafod cam-ymddwyn ar y Domen, ond adroddodd y Cynghorwyr fod y sefyllfa yno wedi gwella'n ddiweddar.
- 6. Un Llais Cymru:**
 - i. Cytunwyd i edrych eto ar y rhaglen hyfforddiant yn y cyfarfod nesaf.
 - ii. Nid oedd neb o'r Cynghorwyr yn rhydd i fynychu cynhadledd flynyddol Un Llais Cymru; fe fydd y cynrychiolwyr arferol yn mynychu'r Pwyllgor Ardal.
- 7. Lloches bws:** Cytunwyd i anfon at Gyngor Gwynedd i ofyn am gymorth wrth brynu a gosod lloches bws.
- 8. Materion Cynllunio:** Cymeradwywyd Cais NP5/53/LB67W sef newid agoriad y drws blaen i ychwanegu linter lechen yn lle bwa carreg a ffenestr linter – 3 Tai'r Aran, Heol y Plase.

Derbyniwyd gwybodaeth y bydd cais cynllunio wedi ei ddiwygio ar gyfer y cyn-fanc Nat West yn dod i sylw'r Cyngor yn y dyfodol.
- 9. Materion Cyllid:**
 - i. Cymeradwywyd a derbyniwyd y Ffurflen Flynyddol wedi ei harchwilio gan BDO.
 - ii. Derbyniwyd ail hanner y Praesept a gwybodaeth am y sefyllfa ariannol gyfredol.
 - iii. Cymeradwywyd derbyniadau a thaliadau'r mis.

- iv. Cytunwyd i drosglwyddo i Bartneriaeth Penllyn y dyraniad cynnal llwybrau a dderbyniwyd gan Gyngor Gwynedd.
- v. Cytunwyd i dalu rhent Y Domen, 2016 a 2017.
- vi. Cytunwyd i dalu costau teithio a'r costau am lunio'r Portffolio Eiddo.

10. Gohebiaeth:

- i. **Gwynedd:** Derbyniwyd gwybodaeth fod dogfennau perthnasol i Gynllun Datblygu Lleol ar y cyd Gwynedd a Môn (2011 – 2026) i'w gweld yn Siop Gwynedd, Penarlâg, Dolgellau ac ar y we www.gwynedd.llyw.cymru/cdll
- ii. **Llywodraeth:**
 - a. Derbyniwyd gwybodaeth bod angen "Datganiad o'r Effaith ar Dreftadaeth" i gefnogi unrhyw gais am gydsyniad adeilad rhestredig neu ardal gadwraeth yng Nghymru.
 - b. Nodwyd derbyn gwybodaeth am Grant y Gymraeg 2050.

iii. Parc Cenedlaethol Eryri:

- a. Derbyniwyd copi o'r cyflwyniad i Gynghorwyr Mehefin 2017 a diolchwyd i Tony Parry am gynrychioli Cyngor Tref Y Bala.
- b. Derbyniwyd copi o'r Ychwnegiadau Adneuo (Deposit) i Gynllun Datblygu 2016-31.
- iv. **Arall:** Cyfeiriwyd cais am wybodaeth berthnasol i newidiadau i Feddygfa'r Hafan i sylw Cyngor Gwynedd.

11. Sul y Cofio: Ystyriwyd cais am gymorth gyda'r drafndiaeth adeg lansiad Apêl Pabî'r Beicwyr Modur (29/10/17 tua 11.00am); cytunodd J C Williams i geisio cadw'r ardal wrth y gofeb yn rhydd o barcio. Cytunwyd i gysylltu gyda Chlwb Beiciau Modur Y Bala, gyda'r PCSO a gyda'r Lleng Brydeinig. Bydd y Dirprwy Faer (neu'r cyn Faer) yn bresennol yn absenoldeb y Maer.

Cytunwyd i archebu pabi gwynion ar gyfer torch o Gronfa'r Maer, ar ôl trafod y trefniadau gyda'r Lleng Brydeinig.

12. Partneriaeth Penllyn:

- i. Derbyniwyd adroddiad gan y cynrychiolwyr a soniodd fod Canolfan Henblas yn llawn.
- ii. Derbyniwyd cais i symud eiddo'r Cyngor ar lawr uchaf yr Henblas a chytunodd y Cynghorwyr i gyfarfod ar 12/9/17 am 5.00pm

13. Toiledau: Gohiriwyd arwyddo Cytundeb gyda Chyngor Gwynedd i gynnal y toiledau am y flwyddyn hon. Cytunwyd fod angen cyfarfod gyda Phartneriaeth Penllyn a

Cyngor Gwynedd yn fuan i ddatrys y mater. Mae angen ffeithiau am wir gostau cynnal y toiledau yn Y Bala, a manylion am y gwaith grant a chostau eraill. Diolchwyd i'r Clerc am anfon llythyr i gefnogi cais Cyngor Gwynedd am grant.

14. Asedau'r Cyngor: derbyniwyd adroddiad Carol Rowlands fod eu cyflwr yn dderbyniol a diolchwyd iddi am eu monitro yn ystod yr haf. Mae peth gwaith eisoes wedi ei wneud gan Gynghorwyr ar eitemau ar y Stryd Fawr.

15. Materion lleol y Cynghorwyr Tref:

- i. Daeth sylwadau i sylw'r Cynghorwyr am fesurau diogelwch sydd yn anharddu'r olygfa o'r llyn; cytunwyd i ofyn i Gyfoeth Naturiol Cymru ystyried addasu'r mesurau.
- ii. Nodwyd y bu gwrsylla ym maes parcio Glannau Tegid a chytunwyd i gadw golwg ar y sefyllfa.
- iii. Mae Swyddog Gorfodaeth Cyngor Gwynedd yn gweithredu ar fater ceir ar werth ar waelod Stryd y Fron ac mewn mannau eraill yn y dref.
- iv. Cytunwyd i anfon at NMWTRA i ofyn am ail osod y goleuadau Nadolig ar y coed ar ôl iddynt wneud y gwaith tocio.
- v. Cytunwyd i dynnu sylw'r Cynghorydd Dilwyn Morgan at balmentydd anwastad, yn arbennig wrth Y Llew Gwyn ac o flaen Siop DE.
- vi. Cytunodd y Clerc i dynnu sylw Cyngor Gwynedd fod angen handlen ar ddrws yn nhoiledau'r Plase a bod angen clirio'r cerrig mân ar y palmentydd ar Ffordd Ffrydan.
- vii. Cytunwyd i ofyn i'r Cynghorydd Dilwyn Morgan gysylltu gyda swyddogion am gynnydd yn y baw cŵn ym Mlaenddôl a'r angen am rwystrau i atal plant yrru eu beiciau'n syth i'r ffordd yno.
- viii. Cytunodd y Clerc i anfon unwaith eto am ddyddiad i gynrychiolwyr ymweld â charchar Wrecsam.
- ix. Mynegwyd pryderon fod pobl ifanc yn cael eu denu i gymryd cyffuriau a'r angen am ddarpariaeth i wrthweithio hyn.

Cynhelir y cyfarfod nesaf yng Nghanolfan Henblas am 7.00 ar 5/10/17.